| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **3 Rhagfyr 2013** |
| **Aelod Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cyllid ac Asedau** |
| **Teitl:** | **Cynllun Cyfalaf 2013/14 – 2017/18** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn diweddaru aelodau ar elfen 2013/14 y cynllun cyfalaf.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Er mwyn rhoi Cynllun Cyfalaf wedi'i ddiweddaru i'r aelodau, gan gynnwys diweddariad ar brosiectau mawr a'r cynllun corfforaethol.

Mae adroddiadau cyfalaf blaenorol wedi eu cynnwys fel eitem Rhan 2 ar yr agenda. Fodd bynnag, yn dilyn amrywiol geisiadau am wybodaeth, mae statws yr adroddiad wedi'i adolygu, a gwnaed cymhariaeth hefyd ag Awdurdodau Lleol eraill, gan ddod i'r casgliad bod angen cynnwys yr eitem o fewn Rhan 1 ar yr agenda.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod Aelodau'n nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch elfen 2013/14 y Cynllun Cyfalaf a'r diweddariad ar brosiectau mawr.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

### 4.1 Gwariant Cyfalaf 2013/14

Ebrill 2013, pan bennwyd Cyllideb 2013/14, oedd y tro diwethaf i'r Cynllun Cyfalaf llawn gael ei adrodd i'r Cyngor. Rhoddir diweddariadau misol i'r Cabinet. Mae'r Amcan-Gynllun Cyfalaf bellach yn £40.638m (£39.704m ar wasanaethau, a swm wrth gefn o £0.934m). Mae'r Cynllun wedi'i ddiweddaru fymryn ers ei adrodd i'r Cabinet ym mis Tachwedd. Rhoddir crynodeb o'r cynllun cyfan, a sut y caiff ei ariannu, yn Atodiad 1.

Y gwir wariant hyd yma yw £13.3m a disgwylir y bydd gwariant sylweddol ar briffyrdd a phrosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl dros y misoedd nesaf. Bydd unrhyw lithriad yn y cynllun yn cael ei adrodd i'r Cabinet. Rhoddir crynodeb o'r gwariant a gynlluniwyd ar gyfer pob Pennaeth Gwasanaeth yn Atodiad 2, gyda manylion y cynlluniau yn Atodiad 3.

### 4.2 Prosiectau Mawr

Mae Atodiad 4 yn rhoi diweddariad ar y prosiectau mawr canlynol:
Datblygiad Harbwr y Rhyl
Y Rhyl yn Symud Ymlaen
Ad-leoli Llyfrgell Prestatyn

Ysgol Ardal Cyfrwng Cymraeg – Safle Ysgol Maes Hyfryd
Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg Gogledd Sir Ddinbych
Ysgol Dyffryn Iâl

4.3 **Cynllun Corfforaethol**

Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn cyflwyno uchelgais y Cyngor i fuddsoddi arian cyfalaf sylweddol yn ei flaenoriaethau dros y pum mlynedd nesaf, ac mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos y bydd angen i'r Cyngor fuddsoddi tua £124.6m o arian cyfalaf.

| | **Cyllid gan y Cyngor** £m | **Cyllid Allanol** £m |
|---|---|---|
| Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif | 36.700 | 36.700 |
| Moderneiddio Addysg | 17.190 | 0 |
| Tai Gofal Ychwanegol a Cefndy | 8.550 | 14.000 |
| Priffyrdd | 6.600 | 4.916 |
| **Cyfanswm** | **69.040** | **55.616** |

Mae'r Cynllun yn gwneud tybiaethau critigol ynghylch amrywiol ffactorau, gan gynnwys cyllid gan Lywodraeth Cymru ac o adnoddau'r Cyngor ei hun, yr amcan-gostau ac amseru'r gwaith.

Rhoddir crynodeb o'r Amcan-Gynllun Corfforaethol diweddaraf yn Atodiad 1.

4.4 **Bidiau Cyfalaf 2014/15**

Y Setliad Cyfalaf dros dro gan Lywodraeth Cymru am 2014/15 yw £4.844m sy'n £0.022 yn llai nag yn 2013/14. Mae hyn yn barhad o'r setliadau gwael iawn gan Lywodraeth Cymru dros y 6 mlynedd ddiwethaf. Yng ngoleuni'r setliad a'r lleihad mewn arian cyfalaf arall, penderfynwyd canolbwyntio'r cyllid am 2014/15 ar ddyraniadau bloc a gytunwyd arnynt yn flaenorol. Gwahoddir bidiau gan y Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a bydd y Grŵp Buddsoddi Strategol yn cyfarfod fis Rhagfyr i adolygu'r bidiau. Bydd y cynigion am ddyraniadau 2014/15 yn mynd gerbron y Cyngor i'w cymeradwyo yn Chwefror 2014.

4.5 **Derbyniadau Cyfalaf**

Disgwylir y bydd y Cyngor yn derbyn £341k mewn derbyniadau cyfalaf erbyn Mawrth 2014. Mae'r rhain yn cynnwys Fronfraith, y Rhyl a derbyniadau llai eraill.

4.6 **Dangosyddion Darbodus**

Pob blwyddyn mae'r Cyngor yn pennu Dangosyddion Darbodus sy'n rhoi cyfyngiadau darbodus ar ei fenthyca. Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor ddyled o £132.5m. Mae hyn o fewn y Terfyn Gweithredol (£170m) a'r Cyfyngiad Awdurdodedig (£175m) ac yn llai na'r Gofyniad Arian Cyfalaf oedd wedi'i ragweld (£194.6m). Mae hyn yn golygu bod y

Cyngor yn cadw at y Cod Arian Cyfalaf Darbodus ac nad yw'n benthyca mwy na'i anghenion cyfalaf.

Y gymhareb costau ariannol i'r ffrwd refeniw net am 2013/14 yw 6.38%. Mae'r gymhareb yn arwydd o fforddiadwyedd ac yn nodi goblygiadau refeniw'r gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig drwy nodi pa gyfran o'r gyllideb refeniw sydd ei hangen i gwrdd â chostau benthyca.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Adolygwyd y prosiectau i sicrhau eu bod yn bodloni Amcanion Corfforaethol y Cyngor.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 **Goblygiadau Costau**

Rhaid sicrhau bod y Cynllun Cyfalaf wedi'i ariannu'n llawn oherwydd, os bydd y costau'n fwy na chyfanswm yr arian sydd ar gael, bydd angen eu hariannu o gyllidebau refeniw.

6.2 **Goblygiadau Staffio / TG / Swyddfeydd**

Mae angen i bob prosiect newydd gwblhau ffurflen Achos Busnes a thrafodir unrhyw oblygiadau penodol bryd hynny.

6.3 **Asesiad o'r Effaith ar y Newid Hinsawdd – Lliniaru ac Addasu:**

Mae prosiectau cyfalaf newydd yn cael eu harchwilio gan y Grŵp Buddsoddi Strategol. Bydd pob achos busnes yn dangos, lle bo hynny'n berthnasol, faint o dunelli o garbon a ryddheir cyn ac ar ôl y prosiect, gan felly nodi a yw'r prosiect yn bositif, negyddol neu'n niwtral o ran rhyddhau carbon. Hefyd, mae angen sicrhau bod prosiectau cyfalaf newydd yn ddiogel at y dyfodol ac yn gallu addasu i'r newid hinsawdd.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?**

Mae pob prosiect newydd yn destun Asesiad ar wahân o Effaith ar Gydraddoldeb.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Caiff prosiectau eu paratoi ac yna eu monitro mewn ymgynghoriad â'r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r ffigyrau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiadau'n seiliedig ar yr amcan-ffigyrau diweddaraf sydd ar gael.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ni ddylai'r un prosiect ddechrau heb gael ei ariannu'n llawn yn erbyn cynllun prosiect cadarn a heb i'r prosiect gael ei drafod gyda'r Grŵp Buddsoddi Strategol.

Mae angen i Noddwyr y prosiectau ffrwyno eu gwariant cyfalaf i sicrhau bod y prosiectau'n gallu aros o fewn eu cyllidebau.

Mae’r Cyngor wedi cymeradwyo Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol. Mae tybiaethau allweddol ynghylch cyllidebau refeniw ac arian parod yn ategu fforddiadwyedd y Cynllun. Bydd graddfa’r Cynllun Corfforaethol yn golygu y bydd yn rhychwantu cyfnod o 5-7 mlynedd a diau yn golygu y bydd gwahaniaeth amseru, wrth iddo ddatblygu, rhwng y tybiaethau a gynlluniwyd a thybiaethau gwirioneddol o ran gwario arian parod. Gallai hyn olygu y bydd yr arian a neilltuwyd wrth gefn yn cynyddu hyd nes yr ymrwymir yr arian. Fodd bynnag mae’n bwysig iawn deall os caiff adnoddau eu gwyro dros fywyd y Cynllun, y bydd angen i’r Cyngor benderfynu pa rai o’r prosiectau a nodwyd yn flaenorol y bydd am eu canslo.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

10.1 **Risgiau’n gysylltiedig â pheidio â chytuno i’r argymhellion**

Byddai’r risgiau posibl yn cynnwys cynlluniau ddim yn symud ymlaen, colli arian grant a tharfu ar wasanaethau.

10.2 **Risgiau’n gysylltiedig â chytuno i’r argymhellion**

Nid yw’r un prosiect cyfalaf yn ddi-risg. Fodd bynnag, mae’r Grŵp Buddsoddi Strategol yn adolygu pob cynllun a chânt hefyd eu monitro ac adroddir arnynt yn fisol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Rhan 1 Deddf Llywodraeth Leol 2003 sy’n pennu'r trefniadau ar gyfer ariannu cyfalaf o 2004/05 ymlaen.